

# Yr Arolwg Bodlonrwydd Chwarae: canllaw i'w ddefnyddio'n lleol

www.chwarae.cymru

**Mae'r canllaw hwn wedi ei greu i gynorthwyo swyddogion awdurdodau lleol i gynnal arolygon bodlonrwydd chwarae plant fel rhan o ofynion y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n amlinellu arfer da wrth gynllunio, paratoi a defnyddio'r arolwg, ac mae'n darparu arweiniad ar gasglu, prosesu a chyflawni dadansoddiadau syml o'r data.**

## Cefndir

Roedd y canllaw statudol[1] a gyhoeddwyd gyntaf yn 2012 yn cynnwys pecyn cymorth a thempled er mwyn egluro'r wybodaeth oedd ei angen yn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh). Cafodd y templed ei ddiweddaru yn 2015 ar gyfer ADCh 2016 a'i adolygu ymhellach ar gyfer ADCh 2019. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys esiampl o arolwg[2] sy'n anelu i gasglu data meintiol yn bennaf ar farn plant ynghylch eu bodlonrwydd gyda chyfleoedd i chwarae yn eu hardal leol.

Dros bedair rownd yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, mae'r arolwg wedi ei ddefnyddio gan lawer o awdurdodau lleol a hynny ar ei ffurf safonol, a gydag addasiadau i ateb anghenion lleol a chanolbwyntio ar faterion penodol. O'r data a rannwyd gan awdurdodau lleol oedd yn defnyddio'r arolwg safonol, mae Chwarae Cymru wedi cyhoeddi adroddiadau cryno hefyd sy'n cyflwyno darlun cyfyngedig o fodlonrwydd chwarae ledled Cymru.

## Pwrpas yr Arolwg Bodlonrwydd Chwarae

Mae ennill dealltwriaeth o farn plant ar ddigonolrwydd cyfleoedd i chwarae yn eu hardal yn chwarae rôl allweddol yn rhan gyntaf y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sef deall y rhwystrau i greu amgylchedd chwarae gyfeillgar sy'n darparu amser, lle a chaniatâd i blant chwarae. Gall arolwg fynd beth o'r ffordd i gyflawni'r amcan hon, a gall y canlyniadau fod â rôl bwysig yn rhan dau o'r ddyletswydd trwy ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddynodi'r bylchau mewn darpariaeth a chynorthwyo gyda datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod hefyd er bod gwerth i arolygon chwarae o ran cofnodi lefelau bodlonrwydd cyffredinol a dynodi mannau ble mae plant yn adrodd am wahanol lefelau o fodlonrwydd, eu bod yn offeryn cymharol syml sy'n darparu fawr ddim manylion am sut y caiff cyfleoedd plant i chwarae eu heffeithio gan amodau lleol mewn cymunedau.

Felly, dylid ystyried arolygon fel un elfen o strategaeth ehangach wrth asesu bodlonrwydd chwarae plant. Tra bo arolygon yn dda am ddarparu ystadegau meintiol, gallai dulliau mwy 'ansoddol' gynnwys:

- Cyfweliadau gyda phlant ac arddegwyr
- Cyfweliadau gydag oedolion (rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, aelodau o'r gymuned)
- Gweithgareddau a thrafodaethau rhyngweithiol gyda'r plant
- Grwpiau ffocws strwythuredig gyda'r plant
- Dyddiaduron chwarae
- Cofnodion gweledol, arsylwadau.

## Arolwg Bodlonrwydd Chwarae safonol 2021-22

Mae Arolwg Bodlonrwydd Chwarae safonol wedi'i gynnwys ym mhob fersiwn o'r pecyn cymorth ADCh gyda nifer fechan o ddiwygiadau a gwelliannau wedi eu cyflwyno dros y blynyddoedd. Mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael fel atodiad i'r canllaw hwn. Tra bo ambell awdurdod lleol wedi defnyddio'r arolwg yn ei ffurf safonol, mae eraill wedi ei addasu neu ddatblygu eu fersiwn eu hunain. Er bod rhaid i bob awdurdod lleol fynd ati i gyflawni'r ADCh mewn modd sy'n ateb eu hanghenion a'u sefyllfa leol orau, mae defnyddio arolygon ansafonol ar draws Cymru yn golygu bod cyfleoedd i edrych ar ddarlun Cymru-gyfan o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae'n anodd iawn.



O ADCh 2019, cafodd data ei goladu o 13 o awdurdodau lleol a'i ddefnyddio i hysbysu adroddiad *'Rwy'n dysgu pethau newydd ac yn dringo coed' Yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am chwarae yng Nghymru*. Er i hwn ddarparu rhywfaint o ddata gwerthfawr, golygodd y darlun rhannol nad oedd y canlyniadau'n adlewyrchu profiadau plant ym mhob ardal, ac na ellid cymharu rhwng ardaloedd. O'u gosod mewn cyd-destun, byddai cymharu profiadau rhwng ardaloedd a dros amser yn hynod o ddefnyddiol, yn lleol ac yn genedlaethol, wrth ddatblygu polisi chwarae. Felly, anogir awdurdodau lleol i ddefnyddio'r arolwg safonol er mwyn helpu i gyflawni hyn.

Mae'r arolwg safonol bellach yn cynnwys 22 o gwestiynau. Mae ychwanegiadau i'r fersiwn ddiweddaraf hon yn cynnwys cwestiynau am brofiadau'n ystod y pandemig COVID-19 a chwestiynau am ethnigrwydd. Ond yn ei hanfod fodd bynnag, mae'r arolwg yn gofyn cwestiynau am agweddau o chwarae plant ac yna'n anelu i fesur bodlonrwydd chwarae cyffredinol:


- **amserol:** amser 'rhydd' plant pryd y gallant ymgolli yn eu chwarae
- **gofodol:** sut all mannau cyhoeddus gefnogi neu gyfyngu ar allu plant i chwarae yn ogystal â mynediad i fannau penodedig ar gyfer chwarae
- **seicolegol (caniatâd):** profiadau plant o amser a lle, yn cynnwys ffactorau megis ymdeimlad o ryddid, caniatâd, perthyn, ofn ac aflonyddu, yn ogystal â rheolaeth a meddiannu cynyddol oedolion o chwarae at ddibenion eraill.

Mae'r cwestiynau eraill yn rhai 'demograffig' yn cynnwys daearyddiaeth, a hunaniaeth. Er bod y rhain yn ddigon 'diflas', maent yn darparu gwybodaeth allweddol y gellir ei defnyddio i ddynodi gwahaniaethau ym mhrofiadau chwarae plant yn ôl lleoliad, rhyw, oed ac ethnigrwydd. Gall data codau post yn enwedig eich helpu i ddynodi ble yn eich ardal y mae profiadau chwarae plant yn wael, gan ysgogi cyfleoedd ar gyfer ymchwilio ac, efallai, gynnig cymorth penodol. Gellir grwpio codau post gydag ystod o feysydd eraill yn cynnwys 'Ardaloedd Cynnyrch Ehangach' a ddefnyddir yn y Cyfrifiad, etholaethau seneddol, byrddau iechyd a Wardiau Cynghorau. Mae coladu data codau post yn ôl gwahanol ardaloedd daearyddol yn golygu hefyd y gellir ei weld yng nghyd-destun setiau data eraill, megis Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) a mynegai plant WIMD.

**Ffigwr 1: Agweddau o chwarae yn arolwg safonol 2021-22**

| Rhif y cwestiwn | Cwestiwn | Agwedd |
|---|---|---|
| 4 | Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau? | Amserol |
| 5 | Oes gen ti ddigon o amser i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau? | Amserol |
| 6 | Pan *nad* wyt ti yn yr ysgol, ym mha fath o lefydd wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu? | Gofodol |
| 7 | Wyt ti'n gallu chwarae ym mhob lle yr hoffet ti chwarae? | Gofodol |
| 8 | Pa mor dda ydi'r llefydd yr wyt ti'n chwarae? | Gofodol |
| 9 | Pa mor ddiogel wyt ti'n teimlo pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu? | Seicolegol |
| 10 | Sut mae'r oedolion yn ymddwyn pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu? | Seicolegol |
| 11 | Wyt ti'n cael chwarae allan ar ben dy hun neu gyda ffrindiau? | Seicolegol |
| 12 | Sut wyt ti, fel arfer, yn teithio i'r llefydd ble rwyt ti'n chwarae? | Seicolegol / gofodol |
| 13 | Sut wyt ti'n teithio i'r ysgol fel arfer? | Seicolegol / gofodol |
| 14 | Ar y cyfan, pa mor dda ydi dy gyfleoedd i chwarae a chymdeithasu? | Bodlonrwydd chwarae |
| 15 | Beth sy'n dda am dy ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu? | Bodlonrwydd chwarae |
| 16 | Beth sydd ddim yn dda am dy ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu ac sydd angen ei wella? | Bodlonrwydd chwarae |
| 17 | Sut mae COVID-19, y cyfnodau clo a'r cyfyngiadau wedi effeithio ar sut y byddi'n chwarae fel arfer? | COVID-19 |
| 18 | Os alli di, dyweda fwy wrthym ni am sut mae COVID-19 wedi effeithio ar dy chwarae. | COVID-19 |

### Ffigwr 2: Enghreifftiau grwpio ymatebion yn ôl ardal




Fel cwestiwn atodol, mae'r arolwg hefyd yn gofyn i blant i ba ysgol y maent yn mynd, allai ddynodi, er nad yw cystal â chôd post (oherwydd efallai nad yw'r plant yn mynychu'r ysgol agosaf), bras-leoliad y mannau chwarae y mae'r plant yn cyfeirio atynt.

Mae'r Arolwg Bodlonrwydd Chwarae 2021-22 safonol yn gofyn i blant am eu hethnigrwydd am y tro cyntaf – yn seiliedig ar y cwestiynau penodol i Gymru a argymhellir gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gall casglu data ar grwpiau ethnig fod yn gymhleth oherwydd natur oddrychol ac amlochrog y cysyniadau. Mae aelodaeth yn rhywbeth sy'n cael ei ddiffinio'n bersonol ac sy'n oddrychol ystyrlon i unigolyn. Oherwydd y cymhlethdod hwn, efallai y bydd angen arweiniad gan oedolyn, oherwydd mae'n bosibl na fydd y plant yn deall yr hyn y mae'r cwestiwn yn ei ofyn. Ni argymhellir dileu categorïau o'r opsiynau ateb sydd ar gael i'r plant, gan na ddylid cyfyngu ar eu dewis oherwydd eu hoedran (neu ffactorau eraill). O'r 15 cwestiwn craidd am chwarae, mae 12 yn gwestiynau cyfyngedig ble y gofynnir i'r plant ond rhoi tic mewn blwch. Mae'r tri arall yn gwestiynau agored sy'n gofyn i'r plant ychwanegu sylwadau. Mae'r cydbwysedd hwn yn bwysig wrth annog ymatebion ond mae iddo hefyd oblygiadau ar gyfer cofnodi ac yna dadansoddi'r data a gesglir.

## Cynllunio eich arolwg

Mae angen gwneud nifer o benderfyniadau allweddol yn gynnar yn y broses o gynllunio'r arolwg.

Yn gyntaf, bydd angen i chi benderfynu os ydych am ddefnyddio arolwg ar bapur, defnyddio cyfwelydd i ofyn y cwestiynau i'r plant, gosod yr arolwg ar-lein – neu ddefnyddio cyfuniad o'r tri dull.

### Arolygon ar bapur

Dyma'r dull a ddefnyddiwyd yn draddodiadol gan y mwyafrif o awdurdodau lleol, ble yr anfonir copïau o'r arolwg at amrywiol bartneriaid megis lleoliadau chwarae, ysgolion a grwpiau ieuenctid. Tra bo hyn yn ddull syml, mae rhaid ystyried cost dosbarthu a chasglu'r ffurflenni a llwytho'r data.

Mae rhaid ystyried hefyd faterion sy'n ymwneud â dilysrwydd a chywirdeb. Oni bai bod y plant yn cael eu goruchwylio'n fanwl, mae'n bosibl y bydd nifer o'r ffurflenni'n cael eu dychwelyd heb eu cwblhau. Yn dibynnu ar y lleoliad, mae'n bosibl hefyd na fydd y plant yn ateb y cwestiynau'n onest, gan ildio i un ai bwysau gan gyfoedion, pryderon ynghylch disgwyliadau oedolion, neu gael eu dylanwadu gan y math o leoliad y maent ynddo ar y pryd.

## Arolygon gyda chyfwelydd

Fel arfer, ystyrir cael cyfwelydd profiadol i ofyn y cwestiynau wyneb-yn-wyneb i'r plant yn unigol a chofnodi eu hatebion (er enghraifft yn electronig ar lechen ddigidol) fel y dull cywiraf o gynnal arolwg. Mae'n galluogi i'r cwestiynau gael eu hegluro, os oes angen, ac i'r ymatebion gael eu hystyried yn ddyfnach, a chael eu cofnodi'n gywir. Fodd bynnag, mae'n ddull costus o ran amser ac arian os oes sampl fawr i'w chasglu.

## Arolygon ar-lein

Unwaith i gostau creu arolwg ar-lein gael eu talu, mae hwn yn ddull rhad iawn. Mae'n bosibl bod gan awdurdodau lleol becyn arolygon arlein eisoes y gellir ei addasu, ac efallai bod ganddynt arbenigedd mewnol i gynorthwyo gyda'u datblygu. Fel arall, ceir nifer o becynnau hawdd i'w defnyddio y gellir eu prynu'n gymharol rad. Unwaith iddynt gael eu llwytho, gellir danfon dolenni i'r arolwg allan trwy restrau postio sy'n bodoli eisoes neu at sefydliadau partner, fel ysgolion, ble y mae argaeledd llechi digidol a gliniaduron bellach yn golygu ei bod yn ymarferol i bob plentyn gael mynediad iddynt.

Mae defnyddio platfform ar-lein yn rhoi lefel uchel o reolaeth ichi dros sut y bydd ymatebwyr yn ateb y cwestiynau, yn eich galluogi i fonitro faint sy'n ateb yn y fan a'r lle ac, wrth gwrs, nid oes angen llwytho data pellach. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anfanteision i arolygon ar-lein, gyda materion yn ymwneud â dilysrwydd (wyddoch chi ddim bob tro pwy sy'n cwblhau'r arolwg), graddfeydd ymateb, a chywirdeb – oherwydd efallai na fydd cyfle i'r plant gael eu cynorthwyo pan mae ganddynt gwestiwn neu ddiffyg dealltwriaeth.

## Targedu'r arolwg

Fel arfer fydd holi pob plentyn yn eich ardal ddim yn bosibl, felly bydd angen ichi benderfynu ar sampl o blant i'w targedu gyda'ch arolwg. Un dull fyddai dewis sampl ar hap ble y byddech, er enghraifft, yn dewis pob pumed enw o restr o bob plentyn yn eich ardal a gofyn iddynt gwblhau'r arolwg. Tra bydd hyn yn cynhyrchu data da, y broblem amlwg yw ei bod yn annhebyg y gallwch gael gafael ar restr o'r fath yn y lle cyntaf.

Ar ben arall y sbectrwm, gellid cymryd sampl gyfleus a holi unrhyw un, neu unrhyw un sydd ar gael yn ystod amserlen benodol. Mae hyn yn debyg o gynhyrchu 'gogwydd dethol' a chanlyniadau llai cywir, felly mae defnyddio sampl haenedig yn gyfaddawd doeth. Mae hyn yn gofyn ichi rannu'r boblogaeth plant yn grwpiau, ac yna pennu targed cynrychiadol o ymatebwyr o'r rhif cyfan, ac o bob is-grŵp yn seiliedig ar eu presenoldeb yn y boblogaeth gyfan. Er enghraifft, fel y dangosir yn Ffigwr 3, mae'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg yn yr awdurdod hwn yn 27%, felly byddai angen inni sicrhau bod 27% o'r rhai a holir ym mhob ardal yn siaradwyr Cymraeg.



**Ffigwr 3: Dull samplo haenedig**

| Ardal | Poblogaeth 0-14 (Stats Cymru) | Sampl 32% (CI=5) | Merched (50%) | Siaradwyr Cymraeg (27%) | Plant anabl (5%) | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (2.6%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwm | 657 | 210 | 105 | 57 | 11 | 5 |
| Blaenau | 1034 | 331 | 165 | 89 | 17 | 9 |
| Dyffryn | 954 | 305 | 153 | 82 | 15 | 8 |
| Pont | 1695 | 542 | 271 | 146 | 27 | 14 |
| Llanfair | 859 | 275 | 137 | 74 | 14 | 7 |
| **Cyfanswm** | **5199** | **1643** | **832** | **449** | **83** | **43** |

Yn olaf, ceir sampl bwrpasol ble byddwch yn targedu grŵp penodol o blant sy'n rhan o'r boblogaeth a chymryd bod eu hymatebion, yn fras, yn gynrychiadol o bob plentyn. Gallai hyn fod yn ddaearyddol, ble y penderfynwch holi cymaint o blant â phosibl mewn un ardal, neu yn ôl oedran, ble byddwch yn anelu i gasglu ymatebion gan un grŵp oedran. Mae'r dull hwn wedi ei ddefnyddio gan nifer o awdurdodau (er enghraifft, mae Conwy a Wrecsam wedi canolbwyntio eu harolwg ar blant ym Mlwyddyn 5). O'i ddefnyddio'n gyson, mantais hyn yw bod angen sampl llai o faint er mwyn bod yn ddilys a darparu data y gellir ei gymharu'n fwy cywir gydag arolygon blaenorol. Yr anfantais amlwg yw nad yw plant oedrannau eraill yn cael dweud eu dweud, felly bydd angen i arolwg oedrannau penodol gael ei gyfannu gan ymgynghoriadau ehangach.

## Maint y sampl

Mae cyfrifo sawl plentyn fydd angen ichi eu holi er mwyn i'ch canlyniadau fod yn gywir ac yn ddilys yn rhan bwysig o'ch gwaith cynllunio. Fel arfer, gwneir hyn trwy gyfrifo dau fesur.

**Lefel Hyder (CL)** – sef pa mor sicr y gallwch fod bod y sampl yn gynrychiadol o'r cyfan. Caiff ei fynegi fel canran ac mae'n cynrychioli pa mor aml y byddai'r boblogaeth plant gyfan yn dewis yr un ateb. Mae'r mwyafrif o waith ymchwil yn defnyddio Lefel Hyder o 95%.

**Cyfwng Hyder (CI)** – sy'n dweud wrthych pa mor hyderus ydych chi yn eich canlyniadau. Gydag unrhyw arolwg fyddwch chi fyth yn sicr 100% y gellid ail-adrodd eich canlyniadau. Mae'r cyfwng hyder yn gyfrifiad ystadegol sy'n gosod maint eich sampl yn erbyn cyfanswm y boblogaeth o blant a phobl ifanc. Caiff ei fynegi fel y rhif y gallai eich canlyniadau amrywio o'i ail-adrodd. Gellir ei gyflwyno fel y 'lwfans gwallau' yn eich canlyniadau.

Er enghraifft, os yw'r cyfrifiad CI sy'n seiliedig ar faint sampl a phoblogaeth yn rhoi cyfwng hyder ichi o '4' a bod 47% y cant o'ch sampl yn dewis ateb gallwch fod yn 'siŵr', pe baech wedi gofyn y cwestiwn i'r boblogaeth berthnasol gyfan, y byddai rhwng 43% (47-4) a 51% (47+4) wedi dewis yr ateb hwnnw. Mae CI o oddeutu '5', fel arfer, yn dderbyniol, ond gallai CI uwch olygu lwfans gwallau annerbyniol.

Mwy o wybodaeth a chyfrifiannell maint sampl:
www.surveysystem.com/sscalc.htm#one

Fel y gwelir yn Ffigwr 4, nid yw maint y sampl yn perthyn yn uniongyrchol i'r boblogaeth, felly ni fydd ardaloedd sydd â dwywaith y nifer o blant angen dwywaith y nifer o ymatebion i'r arolwg. Fodd bynnag, os penderfynwch haenu eich sampl, byddai angen ichi gyfrifo sampl ar gyfer pob is-grŵp (gweler Ffigwr 3).

**Ffigwr 4: Maint sampl awgrymedig ar gyfer arolwg o blant Blwyddyn 5 yn unig, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Poblogaeth grŵp Blwyddyn 5 | Sampl gyda CL=-95% CI=5 |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 790 | 259 |
| Gwynedd | 1265 | 295 |
| Conwy | 1205 | 291 |
| Sir Ddinbych | 1205 | 291 |
| Sir Y Fflint | 1780 | 316 |
| Wrecsam | 1660 | 312 |
| Powys | 1355 | 298 |
| Ceredigion | 685 | 246 |
| Sir Benfro | 1385 | 301 |
| Sir Gâr | 2125 | 325 |
| Abertawe | 2780 | 338 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1660 | 312 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1800 | 317 |
| Bro Morgannwg | 1700 | 314 |
| Rhondda Cynon Taf | 2920 | 340 |
| Merthyr Tudful | 725 | 251 |
| Caerffili | 2175 | 327 |
| Blaenau Gwent | 765 | 256 |
| Torfaen | 1140 | 288 |
| Sir Fynwy | 920 | 271 |
| Casnewydd | 2010 | 323 |
| Caerdydd | 4350 | 353 |



## Coladu’r data

Waeth pa fath o arolwg a ddefnyddiwch, bydd angen i’r ymatebion gael eu coladu ar ffurf sy’n caniatáu i ganlyniadau’r arolwg gael eu hadrodd ac i’r data gael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwiliadau pellach. Os ydych wedi defnyddio arolwg ar-lein, fel arfer gellir lawrlwytho data yn uniongyrchol ar ffurf ffeil taenlen. Bydd angen i arolygon ar bapur a chyfweliadau gael eu llwytho â llaw un ai i daenlen neu trwy’r arolwg ar-lein, os ydych wedi defnyddio un hefyd.

Yn y fan hon, mae’n bwysig sicrhau bod y data yn ‘lân’ ac yn addas ar gyfer y cam dadansoddi nesaf. Mae hyn yn cynnwys archwilio pob ‘newidyn’ (ymateb i gwestiwn) am wallau. Gall gwallau cyffredin gynnwys defnyddio O fawr yn hytrach na sero mewn codau post, neu wallau sillafu yn y data a gofnodwyd. Gall hyn olygu na ellir cyfrif ymatebion penodol yn gywir, er enghraifft, ‘mrech’ yn hytrach na ‘merch’ yn C19.

Os ydych wedi casglu codau post, bydd angen grwpio’r rhain gyda’i gilydd i’r meysydd y byddwch yn eu defnyddio ar gyfer eich dadansoddiad (er enghraifft Ward, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol [MSOA]). Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio tabl am-edrych syml a ddarperir gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Trwy fewnforio’r tabl am-edrych priodol ar gyfer eich ardal, gellir defnyddio’r fformiwla ‘Lookup’ yn Microsoft Excel i bennu enwau ardal ar gyfer codau post (efallai yr hoffech ofyn i rywun yneich awdurdod lleol am gymorth os nad ydych yn hyderus wrth ddefnyddio nodweddion cymhleth Excel). Yn ogystal â phennu ward neu ardaloedd cynnyrch ehangach, gellir defnyddio data codau post hefyd i gynnwys data arall, megis safle’r ardal ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog, neu ei statws gwledig neu drefol o restrau am-edrych sydd ar gael am ddim gan ONS, StatsCymru neu eich awdurdod lleol.

## Defnyddio’r data

Gellir defnyddio data o’r arolwg mewn nifer o ffyrdd, yn amrywio o adroddiad syml o’r canlyniadau i ddadansoddiadau ystadegol mwy cymhleth. Bydd y graddau y gallwch ddefnyddio’r data yn dibynnu ar eich profiad chi, a phrofiad unrhyw gefnogaeth y byddwch un ai’n ei brynu i mewn, neu y mae gennych fynediad iddo o fewn eich awdurdod lleol, neu mewn sefydliadau partner, megis sefydliadau addysg uwch lleol.

### Adrodd am eich sampl

Y defnydd symlaf o’ch data fydd cyfrif y nifer o ymatebion a dderbyniwyd i’ch arolwg, pwy oedd yr ymatebwyr ac o ble ddaeth yr ymatebion. Mae hyn yn golygu dim ond cyfrif y nifer o arolygon a ddychwelwyd ond mae’n wirioneddol bwysig er mwyn dynodi pa mor ddilys yw’r data ac er mwyn creu proffil o’r ymatebwyr. Efallai yr hoffech gynnwys datganiad megis:

'Dychwelwyd cyfanswm o 728 o ffurflenni arolwg. O'r rhain, ystyriwyd bod 683 ohonynt yn ddilys. Mae data poblogaeth yn amcangyfrif bod 1,212 o blant yn y garfan. Felly, mae ymatebion yr arolwg yn cynrychioli barn 56% o gyfanswm y boblogaeth. Mae maint y sampl yn golygu tebygolrwydd o 95% bod yr ymatebion yn adlewyrchu'n gywir agweddau'r boblogaeth gyfan. Cyfrifir y lwfans gwallau fel +/- 2.48%. Mae hyn yn golygu pe bae 47% y cant o'r sampl yn dewis ateb, gallwn fod yn "siŵr", pe baem yn gofyn y cwestiwn hwn i'r boblogaeth berthnasol gyfan, y byddai rhwng 44.5% a 49.5% wedi dewis yr ateb hwnnw.'

Mae'n arfer da hefyd i ddynodi sawl plentyn yn yr is-grwpiau wnaeth gwblhau'r arolwg, yn cynnwys plant o grwpiau hunaniaeth rhywedd, plant anabl, siaradwyr Cymraeg a phlant o grwpiau ethnig lleiafrifol. Efallai y gallwch hefyd ddefnyddio'r data codau post i ddynodi sawl plentyn ym mhob ardal ddaearyddol o'r awdurdod wnaeth ddychwelyd eu harolygon. Gallai nifer cyfyngedig o ymatebion i'r arolwg mewn rhai ardaloedd arwain at gynrychiolaethau camarweiniol, felly mae cyflwyno'r wybodaeth hon yn bwysig dros ben.

## Data crynswth

Gallwch gyflwyno canfyddiadau cyffredinol yr arolwg gan ddefnyddio tablau data crynswth yn seiliedig ar y grŵp cyflawn o ymatebwyr i'r arolwg. Efallai yr hoffech wneud hyn ar gyfer pob cwestiwn ar yr arolwg fel man cychwyn. Mae Ffigwr 5 yn dangos data crynswth syml ar gyfer C4.

**Ffigwr 5: Tabl crynswth C4**

| Q4. Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau? | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Ychydig ddiwrnodau'r wythnos | 233 |
| Bron byth | 121 |
| Dydw i ddim yn chwarae nac yn cymdeithasu gyda fy ffrindiau'r tu allan | 46 |
| Y rhan fwyaf o ddyddiau | 281 |
| Dim ymateb | 2 |
| **Cyfanswm** | **683** |

Fodd bynnag, fel arfer bydd yn fwy defnyddiol i gyflwyno'r data fel canran, ond bydd rhaid ichi gynnwys cyfanswm y nifer o ymatebion, a gyflwynir fel arfer ar ffurf 'n'.

**Ffigwr 6: Tabl crynswth C4 (n=683)**


| Q4. Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau? | % o ymatebion |
|---|---|
| Ychydig ddiwrnodau'r wythnos | 34.11% |
| Bron byth | 17.72% |
| Dydw i ddim yn chwarae nac yn cymdeithasu gyda fy ffrindiau'r tu allan | 6.73% |
| Y rhan fwyaf o ddyddiau | 41.14% |
| Dim ymateb | 0.29% |

Yn Excel, mae'n hawdd hefyd i gyflwyno'r un data ar ffurf siart ond, unwaith eto, mae'n bwysig cynnwys 'n' gan fod hyn yn golygu y gellir gosod y canrannau mewn cyd-destun.



**Ffigwr 7: Siart C4 (n=683)**

## Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau?





## Croesdablu

Mae croesdablu yn darparu ffordd i ddadansoddi a chymharu'r canlyniadau ar gyfer un neu fwy o newidion o'ch arolwg gyda chanlyniadau un arall. Maent yn dablau data sydd nid yn unig yn cyflwyno canlyniadau'r grŵp cyflawn o ymatebwyr, ond hefyd ganlyniadau gan is-grwpiau o ymatebwyr i'r arolwg. Mae croesdablu yn eich galluogi i archwilio perthnasau rhwng y data na fyddent yn amlwg iawn wrth ddadansoddi'r holl ymatebion i'r arolwg. Gellir creu croesdablau yn Excel gan ddefnyddio'r nodwedd 'PivotTable' syml ond grymus. Mae llawer o wersi 'PivotTable' gwych ar gael ar-lein. Gan gymryd C4 fel enghraifft, mae croesdablu yn caniatáu ichi gymharu sut y mae merched a bechgyn yn ymateb i'r un cwestiwn. Unwaith eto, mae arddangos y data ar ffurf tabl fel canrannau yn ei wneud yn haws i'w ddarllen ac, fel o'r blaen, mae'n hawdd iawn arddangos y data ar ffurf siart.

**Ffigwr 8: Croesdabl a siart C4 a C19 (n=683)**

| Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau? | Bachgen | Merch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ychydig ddiwrnodau'r wythnos | 36.8% | 34.1% | 35.5% |
| Bron byth | 16.1% | 18.1% | 17.1% |
| Dydw i ddim yn chwarae nac yn cymdeithasu gyda fy ffrindiau'r tu allan | 6.4% | 6.1% | 6.3% |
| Y rhan fwyaf o ddyddiau | 40.1% | 41.6% | 40.9% |
| Dim ymateb | 0.7% | 0.0% | 0.3% |

## Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau?




Mae croesdablu'n cyflwyno gwedd newydd ichi ar ddata eich arolwg trwy amlygu cydberthnasau rhwng un newidyn ac un arall. Fodd bynnag, dylid wastad trin cydberthnasau'n ofalus, gan nad ydynt yn awgrymu bod un peth yn achosi rhywbeth arall.

Yn yr enghraifft uchod, mae'n ymddangos bod mwy o ferched nac o fechgyn 'bron byth' yn chwarae'r tu allan. Sylw yw hwn ac allwn ni ddim datgan yn bendant bod merched yn chwarae'r tu allan lai na bechgyn dim ond oherwydd eu bod yn ferched. Efallai bod ffactorau eraill na allwn roi cyfrif amdanynt.

Er hynny, mae croesdablu yn caniatáu ichi ystyried ffactorau 'dibynnol' megis oedran, rhyw, iaith, anabledd, ethnigrwydd a lleoliad, a archwilio sut y mae'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg am amser, lle, caniatâd a bodlonrwydd chwarae cyffredinol yn wahanol ar gyfer pob isgrŵp.

### Dadansoddiad uwch

Gyda'r arbenigedd a'r offer cywir, efallai y gallech gynnal dadansoddiadau eraill o ddata'r arolwg. Gan ddefnyddio meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS), gallwch gynhyrchu mapiau sy'n arddangos data'r arolwg yn ôl lleoliad y cyfranogwyr. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn mewn ardaloedd sydd â phoblogaethau mwy amrywiol, neu ble mae bwlch trefol / gwledig amlwg.

Dull ystadegol pwerus arall yw cynnal dadansoddiad 'atchweliad'. Mae hwn yn cymryd un newidyn – megis C14 (bodlonrwydd chwarae) ac yna'n dadansoddi grŵp o newidion eraill (er enghraifft rhyw, caniatâd i chwarae, anabledd, natur wledig) i weld pa un sy'n fwyaf tebygol o ddarogan bodlonrwydd uchel (neu isel) plant gyda chyfleoedd chwarae. Mae ffactorau megis maint eich sampl yn bwysig iawn yn y math hwn o ddadansoddiad, ond gall fod yn arwydd defnyddiol iawn o ble fyddai orau i ganolbwyntio'r polisi chwarae lleol.

## Data ansoddol

Mae'r Arolwg Bodlonrwydd Chwarae safonol yn cynnwys tri chwestiwn agored yn seiliedig ar yr hyn sy'n dda am chwarae, yr hyn sy'n ddrwg am chwarae ac, ar gyfer 2021-22, effeithiau COVID-19 ar chwarae. Mae'n debyg na chewch atebion i'r cwestiynau hyn gan bob un o'r cyfranogwyr, all gyfyngu ar eu defnydd fel prif dystiolaeth. Fodd bynnag, gallant fod o gymorth mawr wrth ddarparu cyd-destun i rai o'r ffenomenau a welwch yn y dadansoddiad data meintiol. Gall defnyddio dyfyniadau o'r cwestiynau hyn helpu i esbonio data, tra gall cyflwyno ymatebion ar ffurf Cymylau Geiriau amlygu themâu cyffredin penodol.

## Adrodd

Wedi cwblhau'r holl waith, mae'n bwysig ei gyflwyno mewn ffordd sy'n ateb anghenion eich cynulleidfa orau. Gall hyn alw am adroddiad manylach sy'n cynnwys nifer fawr o dablau a siartiau sy'n darparu gwybodaeth i chi, a chydweithwyr eraill sydd â diddordeb yn y maes, y gellir eu defnyddio i arwain eu gwaith. Gall adroddiad crynodeb byr fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer cynulleidfa fwy cyffredinol yn cynnwys rhieni a chynghorwyr, ac i'w gyhoeddi ar-lein. Dylai hwn ganolbwyntio ar ateb y cwestiwn ymchwil: Beth yw'r rhwystrau i greu amgylchedd chwarae gyfeillgar sy'n darparu amser, lle a chaniatâd i blant chwarae?




## Cyfeiriadau

[1] Llywodraeth Cymru (2012) *Creu Cyfle i Chwarae: Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu bod digon o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[2] Llywodraeth Cymru (2019) *Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Pecyn Cymorth. Rhan 4*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[3] Llywodraeth Cymru (2021) *Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion (CYBLD)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Atodiad 1: Arolwg Bodlonrwydd Chwarae safonol 2021-22

Mae gan Lywodraeth Cymru ddeddf sy'n golygu bod rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal ymchwiliad i weld faint o amser a lle sydd gan blant i chwarae a chymdeithasu yn eu hardal leol.

Trwy lenwi'r arolwg isod, byddi'n ein helpu ni i greu llun o sut mae'r sefyllfa i blant sy'n chwarae yn ______________________. Yna, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i ddod o hyd i ffyrdd i amddiffyn a gwella'r amser a'r lle sydd gan blant i chwarae neu gymdeithasu. Diolch yn fawr!

### Cyn i ni ddechrau, ry'n ni angen gwybod ychydig o wybodaeth amdanat ti

| | |
|---|---|
| **C1. Faint yw dy oed?** | **C2. Beth yw côd post dy gartref?** (Neu, ym mha ardal wyt ti'n byw? |
| **C3. Pa ysgol wyt ti'n mynd iddi?** | |

### Iawn, gawn ni feddwl am yr amser sydd gennyt ti i chwarae

**C4. Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau?** *Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Y rhan fwyaf o ddyddiau | | Bron byth |
| | Ychydig ddiwrnodau'r wythnos | | Dydw i ddim yn chwarae nac yn cymdeithasu gyda fy ffrindiau'r tu allan |

**C5. Oes gen ti ddigon o amser i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau?** *Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Oes, mae gen i lawer o amser | | Nac oes, hoffwn i gael ychydig yn fwy |
| | Oes, mae gen i ddigon o amser | | Nac oes, rydw i angen lot mwy |

### Nesaf, meddylia am y gwahanol lefydd ble rwyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu

**C6. Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn 'cymdeithasu' gyda ffrindiau?**
*Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn fy nhŷ neu yn nhŷ ffrind | | Rhywle gyda dŵr neu dywod ynddo |
| | Yn fy ngardd neu ardd ffrind | | Mewn parc beics neu barc sgrialu |
| | Yn y strydoedd ger fy nhŷ | | Mewn canolfan gymunedol neu ganolfan hamdden |
| | Mewn ardal wyrdd leol | | Mewn clwb ieuenctid |
| | Mewn ardal efo llwyni, coed a blodau | | Mewn clwb ar ôl ysgol |
| | Mewn parc chwarae efo siglenni, llithren ac offer chwarae eraill | | Mewn parc chwarae antur neu gynllun chwarae |
| | Yn y coed ger fy nhŷ | | Canolfan chwarae dan do |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ar gae pêl droed ger fy nhŷ | | Rhywle arall (cofia ddweud ble) |
| | Ar faes chwarae fy ysgol | | |

**C7. Wyt ti'n gallu chwarae ym mhob lle yr hoffet ti chwarae?** *Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu chwarae ym mhob lle rydw i eisiau | | Rwyf ond yn cael chwarae yn ychydig o'r llefydd rwyf eisiau |
| | Rwy'n gallu chwarae yn rhai o'r llefydd rwyf eisiau | | Dydw i ddim yn cael chwarae mewn llawer o lefydd rwyf eisiau |

## Nawr, meddylia am yr holl bethau yr wyt ti'n hoffi eu gwneud pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu

**C8. Pa mor dda ydi'r llefydd yr wyt ti'n chwarae?** *Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Maen nhw'n grêt, rwy'n gallu gwneud yr holl bethau rydw i eisiau | | Dydyn nhw ddim yn dda, dydw i ddim yn gallu gwneud llawer o bethau rwyf eisiau |
| | Maen nhw'n iawn, rwy'n gallu gwneud rhai o'r pethau rydw i eisiau | | Maen nhw'n ofnadwy, dydw i ddim yn gallu gwneud dim o'r pethau rydw i eisiau |

**C9. Pa mor ddiogel wyt ti'n teimlo pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu?** *Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rwy'n teimlo'n ddiogel bob amser | | Dydw i byth yn teimlo'n ddiogel |
| | Rwy'n teimlo'n ddiogel fel arfer | | Dydw i ddim yn chwarae'r tu allan |

**C10. Sut mae'r oedolion yn ymddwyn pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu?** *Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn grêt ac yn hapus efo plant yn chwarae tu allan | | Mae rhai oedolion yn anhapus a ddim yn hoffi bod plant yn chwarae tu allan |
| | Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn iawn ac yn fodlon bod plant yn chwarae tu allan | | Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn anhapus ac yn casáu plant yn chwarae tu allan |

## Nawr, meddylia sut rwyt ti'n symud o gwmpas dy gymuned leol

**C11. Wyt ti'n cael chwarae allan ar ben dy hun neu gyda ffrindiau?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ydw | | Nac ydw |

**C12. Sut wyt ti, fel arfer, yn teithio i'r llefydd ble rwyt ti'n chwarae?** *Ticia un ateb yn unig*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rwy'n cerdded neu'n mynd ar fy meic ar fy mhen fy hun | | Mae oedolyn yn mynd a fi mewn car |
| | Rwy'n cerdded neu'n mynd ar fy meic gyda ffrindiau | | Rwy'n dal y bws |
| | Rwy'n cerdded neu'n mynd ar fy meic gydag oedolyn | | |

| **C13. Sut wyt ti'n teithio i'r ysgol fel arfer?** *Ticia un ateb yn unig* | | | |
|---|---|---|---|
| | Rwy'n cerdded neu'n mynd ar fy meic ar fy mhen fy hun | | Mae oedolyn yn mynd a fi mewn car |
| | Rwy'n cerdded neu'n mynd ar fy meic gyda ffrindiau | | Rwy'n dal y bws |
| | Rwy'n cerdded neu'n mynd ar fy meic gydag oedolyn | | |

## Reit, dyma'r cwestiynau pwysig pwysig!

| **C14. Ar y cyfan, pa mor dda ydi dy gyfleoedd i chwarae a chymdeithasu?** *Ticia un ateb yn unig* | | | |
|---|---|---|---|
| | Maen nhw'n grêt, allen nhw ddim bod yn well | | Dydyn nhw ddim yn dda ac maen nhw angen gwella |
| | Maen nhw'n dda, ond fe allen nhw fod *hyd yn oed* yn well | | Maen nhw'n ofnadwy ac angen bod yn llawer gwell |
| | Maen nhw'n iawn, ond maen nhw angen gwella rhywfaint | | |

**C15. Beth sy'n dda am dy ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu?**

**C16. Beth sydd ddim yn dda am dy ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu ac sydd angen ei wella?**

## Cwpwl o gwestiynau am COVID-19

| **C17. Sut mae COVID-19, y cyfnodau clo a'r cyfyngiadau wedi effeithio ar sut y byddi'n chwarae fel arfer?** *Ticia un ateb yn unig* | | | |
|---|---|---|---|
| | Ddim o gwbl | | Ychydig |
| | Weithiau | | Y rhan fwyaf o'r amser |
| | Trwy'r amser | | |

**C18. Os alli di, dyweda fwy wrthym ni am sut mae COVID-19 wedi effeithio ar dy chwarae.**

| Ac i orffen, dim ond ychydig o gwestiynau amdanat ti | | | |
|---|---|---|---|
| **C19. Wyt ti...** | | | |
| | **Yn fachgen?** | | **Yn ferch?** |
| **Arall** (disgrifia yma) | | | |
| **C20. Wyt ti'n ystyried dy hun yn berson gydag anabledd?** | | | |
| | Ydw | | Nac ydw |
| **C21. Pa iaith sydd yn well gen ti ei siarad?** | | | |
| | Cymraeg | | Saesneg |
| Arall (noda pa iaith) | | | |
| **C22. Dangos pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau dy gefndir neu dy grŵp ethnig?**<br>*Cofia ofyn am help os nad wyt ti'n siŵr* | | | |
| **Gwyn** | | | |
| | Cymreig / Saesnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig | | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig |
| | Gwyddelig | | Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifia yma |
| **Grwpiau ethnig Cymysg / Lluosog** | | | |
| | Gwyn a Du Caribïaidd | | Gwyn ac Asiaidd |
| | Gwyn a Du Affricanaidd | | Unrhyw gefndir ethnig Cymysg / Lluosog arall, disgrifia yma |
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | | | |
| | Indiaidd | | Tsieineaidd |
| | Pacistanaidd | | Unrhyw gefndir Asiaidd arall, disgrifia yma |
| | Bangladeshaidd | | |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | | | |
| | Affricanaidd | | Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall, disgrifia yma |
| | Caribïaidd | | |
| **Grŵp ethnig arall** | | | |
| | Arabaidd | | Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifia yma |

## Diolch iti am gymryd amser i gwblhau'r holiadur yma

Wedi iti ei orffen, rho'r holiadur yn ôl i'r athro, y gweithiwr chwarae neu'r gweithiwr ieuenctid a roddodd o iti.

**Awdur: David Dallimore**

Mae David yn gynghorydd polisi ac ymgynghorydd ymchwil sy'n arbenigo mewn chwarae a gofal plant y blynyddoedd cynnar. Mae'n rhan o dîm cymdeithas sifil Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) Prifysgol Bangor sy'n archwilio newid mewn mannau dros amser. Ac yntau wedi derbyn Cymrodoriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae David wedi gweithio gyda Gwasanaeth Ymchwil y Senedd er mwyn darparu gwybodaeth am addysg a gofal plentyndod cynnar (ECEC).

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Mai 2022